OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

2006 Rhif 1262 (Cy.119)

ADDYSG, CYMRU

Rheoliadau Addysg (Y Diwrnod Ysgol a'r Flwyddyn Ysgol) (Cymru) (Diwygio) 2006

Wedi'u gwneud - -	*3 Mai 2006*
Yn dod i rym - -	*1 Awst 2006*

Drwy arfer y pwerau a roddwyd i'r Ysgrifennydd Gwladol gan adrannau 551 a 569(4) a (5) o Ddeddf Addysg 1996(**1**) ac sydd bellach wedi'u breinio yng Nghynulliad Cenedlaethol Cymru(**2**), mae Cynulliad Cenedlaethol Cymru drwy hyn yn gwneud y Rheoliadau canlynol:

Enwi a chychwyn

1. Enw'r Rheoliadau hyn yw Rheoliadau Addysg (Y Diwrnod Ysgol a'r Flwyddyn Ysgol) (Cymru) (Diwygio) 2006 a deuant i rym ar 1 Awst 2006.

Diwygio Rheoliadau

2.—(1) Diwygir Rheoliadau Addysg (Y Diwrnod Ysgol a'r Flwyddyn Ysgol) (Cymru) 2003(**3**)fel a ganlyn.

(2) Yn adran 3, yn nhrefn briodol yr wyddor mewnosoder–

"mae "cyfnod allweddol" i'w ddehongli yn unol â "key stage" yn adran 103 o Ddeddf Addysg 2002"(**4**).

(3) Yn lle rheoliad 5, rhodder–

"**5.**—(1) Yn ddarostyngedig i baragraff (2), mae'r paragraff hwn yn gymwys i unrhyw sesiwn ysgol sy'n dod o fewn y blynyddoedd ysgol 2006- 2007 a 2007- 2008 a gaiff ei neilltuo (yn llwyr neu yn bennaf) i ddarparu unrhyw un neu fwy o'r ffurfiau canlynol o hyfforddiant (gan gynnwys hyfforddiant a fynychir gan staff sy'n addysgu a staff nad yw'n addysgu a hyfforddiant a gynhelir ar y cyd ag ysgolion eraill), sef–

(**1**) 1996 p.56. Mewnosodwyd adran 551(1A) gan baragraff 39 o Atodlen 7 i Ddeddf Addysg 1997 (p.44), a diwygiwyd adran 551(2) gan baragraff 166 o Atodlen 30 ac Atodlen 31 i Ddeddf Safonau a Fframwaith Ysgolion 1998 (p.31). I gael ystyr "prescribed" a "regulations" gweler adran 579(1).

(**2**) Trosglwyddwyd swyddogaethau"r Ysgrifennydd Gwladol i"r Cynulliad Cenedlaethol gan Orchymyn Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Trosglwyddo Swyddogaethau) 1999 (O.S. 1999/672).

(**3**) O.S. 2003/3231 (Cy.311).

(**4**) 2002 p.32.